

## Sut ydw i’n gosod Dilysu Aml-ffactor (MFA) ar gyfer bluQube?

### Cod Mynediad Untro

Mae hyn yn gofyn am ddefnyddio cymhwysiad dilysu y gellir ei lawrlwytho i ffôn clyfar. Mae’r cymhwysiad yn cysylltu â bluQube wrth fewngofnodi am y tro cyntaf a bydd yn creu cod mynediad gwahanol bob 30 eiliad – bydd y cod mynediad hwn yn cael ei roi yn bluQube a’i ddilysu i ganiatáu’r ymgais i fewngofnodi.

### Sut i Osod y Cod Mynediad Untro

Y peth cyntaf y bydd angen i chi ei wneud yw sicrhau bod gennych ap Authenticator wedi'i lawrlwytho ar eich ffôn clyfar – efallai bod gennych ap Microsoft Authenticator eisoes wedi'i lawrlwytho i'ch ffôn fel rhan o broses y Drindod Dewi Sant o osod Dilysu Aml-ffactor (MFA) Office 365.

### Lawrlwytho a Gosod ap Authenticator

Ar eich ffôn symudol, lawrlwythwch ap Microsoft Authenticator – gweler yr opsiynau isod. Mae’r ap ar gael ar Ffonau Clyfar Apple neu Android yn unig


- ***Dyfais Android –*** Ar eich dyfais Android, ewch i Google Play i lawrlwytho a gosod ap Microsoft Authenticator.

- ***Apple iOS –*** Ar eich dyfais Apple iOS, ewch i’r App Store i lawrlwytho a gosod ap Microsoft Authenticator.



## Mewngofnodi am y Tro Cyntaf

Wrth fewngofnodi i bluQube am y tro cyntaf ar ôl i’r Cod Mynediad Untro gael ei osod ar gyfer eich enw defnyddiwr chi, ac wedi i chi roi eich enw defnyddiwr a’ch cyfrinair yn yr un modd ag arfer, fe welwch y sgrin isod:





Yn eich ap Authenticator, cliciwch ’Add Account’ a dewis y math o gyfrif rydych chi’n ei ychwanegu (cyfrif **gwaith** fydd hwn mwy na thebyg).

Yna cewch yr opsiwn i naill ai sganio'r cod QR o'r sgrin, neu i fewnbynnu’r allwedd â llaw – unwaith y byddwch wedi gwneud hyn bydd yr ap yn rhoi cod i chi.

Bydd y cod a roddir gan yr ap yn adnewyddu bob 30 eiliad, felly bydd angen i chi roi’r cod yn y maes ‘One Time Passcode' a chlicio ar ‘Logon’ cyn i’r cod gael ei adnewyddu.

## Mewngofnodiadau Dilynol

Gan eich bod bellach wedi cysylltu eich cyfrif bluQube â'ch ap Authenticator, y tro nesaf (a’r troeon wedyn) y byddwch yn mewngofnodi byddwch yn gweld y sgrin isod:




Yna, bydd angen i chi agor eich ap dilysu, clicio ar y cyfrif 'bluQube', a rhoi’r Cod Mynediad Untro a ddarperir i mewn i bluQube i fewngofnodi.





## Cwestiynau Cyffredin

**Pan fyddaf yn cael dyfais symudol newydd yn lle’r un rwy’n derbyn Codau Mynediad Untro arni, beth sydd angen i mi ei wneud?**

Cysylltwch â’r Tîm Cyllid a fydd yn ailosod eich cyfrif Dilysu Aml-ffactor ar gyfer bluQube.

## Gwybodaeth Bellach

Mae rhagor o wybodaeth am Ddilysu Aml-ffactor (MFA) ar gael ar ein gwefan www.uwtsd.ac.uk/mfa.

Os cewch unrhyw drafferthion wrth fewngofnodi i bluQube, cysylltwch â’r tîm Cyllid.